# Asesiad o effeithiau economaidd presennol ac arfaethedig treftadaeth

I Gyngor Gwynedd a'i Bartneriaid



tbr knows... economics, creative, skills, environment

tbr
economic research & business intelligence




# Asesiad o effeithiau economaidd presennol ac arfaethedig treftadaeth

## I Gyngor Gwynedd a'i Bartneriaid

Lluniwyd gan Dîm Ymchwil Economaidd TBR a Rebanks Consulting

Cewch gyfeirio unrhyw ymholiadau am yr adroddiad hwn at:

**Andrew Graves, Managing Director, TBR**

**James Rebanks, Rebanks Consulting**

15 Gorffennaf 2015

Floor D, Milburn House
Dean Street
Newcastle upon Tyne, NE1 1LE

Ffôn: +44 (0) 191 279 0900
Ebost: andrew.graves@tbr.co.uk
www.tbr.co.uk

# 1. Crynodeb Gweithredol

## 1.1 Cyflwyniad

Cyflawnwyd yr astudiaeth hon gan *TBR and Rebanks Consulting* rhwng Hydref 2014 a Mawrth 2015. Fe'i comisiynwyd gan y bartneriaeth sy'n arwain ar Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig Diwydiant Llechi Gogledd Cymru, sydd ar hyn o bryd ar restr gychwynnol Llywodraeth y DU o enwebiadau i UNESCO. Cred y bartneriaeth ei bod yn hanfodol bwysig sefydlu'r manteision economaidd posibl cyn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu enwebiad. Mae'r astudiaeth hon yn dystiolaeth allweddol o ran natur a maint y manteision posibl hynny.

Prif nod yr astudiaeth, felly, yw cyflwyno asesiad o effeithiau presennol ac arfaethedig y gweithgarwch economaidd ar sail treftadaeth a'r gweithgarwch adfywio a arweinir gan dreftadaeth ac unrhyw fanteision penodol a ddeuai yn sgil sicrhau statws Treftadaeth y Byd i Ddiwydiant Llechi Gogledd Cymru.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, yr oedd yn rhaid i'r astudiaeth hefyd gyflawni nifer o amcanion:

1. Diffinio'r economi treftadaeth
2. Bwrw amcan o lefel bresennol y gweithgarwch economaidd ar sail treftadaeth a'r gweithgarwch adfywio a arweinir gan dreftadaeth yng Ngwynedd, gan roi mesur, yn y cyfanswm, o arwyddocâd y gweithgarwch sy'n ymwneud â threftadaeth llechi.
3. Datblygu gwaelodlin ar gyfer gwerth economaidd gweithgarwch sy'n ymwneud â threftadaeth yng Ngwynedd, gan roi mesur, unwaith yn rhagor, o arwyddocâd y gweithgarwch sy'n gysylltiedig â threftadaeth llechi yn y cyfanswm.
4. Datblygu rhagolygon ar sail tystiolaeth ar gyfer potensial gwerth economaidd y gweithgarwch sy'n ymwneud â threftadaeth (gan roi mesur yn y cyfanswm, unwaith yn rhagor, o arwyddocâd y gweithgarwch sy'n gysylltiedig â threftadaeth llechi).
5. Ar sail casgliadau'r dasg uchod, darparu rhagolwg ar sail tystiolaeth o botensial y gwerth ychwanegol a ddeuai yn sgil sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i Ddiwydiant Llechi Gogledd Cymru.
6. Nodi'r arferion gorau a / neu ymyriadau/gweithgarwch posibl o ardaloedd eraill (gan gynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd) a allai gyflawni manteision economaidd cadarn.
7. Cynnig fframwaith monitro ac arfarnu arfaethedig – i gynnwys dangosyddion canlyniadau, diffiniadau a gwaelodlinau – ar gyfer ymyriadau yn y maes hwn.

## 1.2 Methodoleg

Dyma'r **fethodoleg** a ddefnyddiwyd;

- Diffinio'r economi treftadaeth mewn modd a oedd yn caniatáu ar gyfer asesu manwl a datblygu rhagolygon. Mae'r diffiniad yn seiliedig ar dair elfen ryng-gysylltiedig: Treftadaeth Graidd (h.y. cyrff sy'n ymwneud yn eu hanfod â threftadaeth, neu sy'n gysylltiedig â threftadaeth), Twristiaeth a arweinir gan Dreftadaeth (h.y. teithiau i ymwelwyr a gaiff eu cymell yn bennaf gan yr awydd i weld treftadaeth ac i ymgysylltu â hi), ac Adeiladwaith Treftadaeth (h.y. atgyweirio a chynnal a chadw henebion ac adeiladau hanesyddol).
- Datblygu set ddata o fusnesau a chyrff treftadaeth i gefnogi'r gwaith o asesu maint a gwerth yr economi 'Treftadaeth Graidd'
- Bwrw amcan o faint a gwerth Twristiaeth Treftadaeth ac Adeiladwaith Treftadaeth gan ddefnyddio methodolegau a data eilaidd sefydledig.
- Diffinio wyth senario at y dyfodol sy'n cynrychioli gwahanol opsiynau datblygu ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid, a chynhyrchu rhagolygon o'r posibiliadau o ran lefelau cyflogaeth, trosiant, a Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) y gallai'r rhain eu cynhyrchu erbyn 2030.
- Cynnal ymchwil desg, nifer fach o gyfweliadau, ac ymchwilio i ardaloedd 'astudiaeth achos' perthnasol (yn STB ac fel arall) i ganfod tystiolaeth o fanteision economaidd statws STB a'r dulliau gweithredu a fabwysiadwyd i uchafu'r rhain.

## 1.3 Maint a gwerth cyfredol treftadaeth

Dyma'r **canfyddiadau allweddol o ran maint ac effaith gyfredol**;

- Yn 2014 yr oedd economi treftadaeth Gwynedd yn **cyflogi 8,250 o bobl**. Mae hyn yn cynrychioli 15% o holl gyflogaeth y sir.
- Cynhyrchodd Treftadaeth **£515 miliwn mewn trosiant** yn 2014 ac **£180 miliwn mewn GYC** yn 2014 (sy'n cynrychioli 6.2% o gyfanswm GYC Gwynedd).
- **Twristiaeth Treftadaeth** yw'r mwyaf o'r tri segment yn yr economi treftadaeth; mae'n cyflogi **6,860 o bobl**, yn cynhyrchu **trosiant o £417 miliwn** a **GYC o £135 miliwn**.
- Cyfrannodd **treftadaeth Llechi 710 o swyddi**, **trosiant o £53.4 miliwn**, a **GYC o £22 miliwn** yn 2014. Mae pwysigrwydd sylweddol i Lechi yn y segment Treftadaeth Graidd: 41% o'r swyddi, 53% o'r trosiant, a 55% o'r GYC. Mae, felly, yn chwarae rhan hanfodol bwysig drwy danategu Treftadaeth Graidd yng Ngwynedd ac, yn hynny o beth, treftadaeth yn gyffredinol. Serch hynny, mae'n ymddangos nad yw ond yn denu cyfran fechan o dwristiaeth treftadaeth yn y Sir; awgryma'r dystiolaeth fod 4.3% o'r ymweliadau ag atyniadau treftadaeth i ymwelwyr yng Ngwynedd yn ymweliadau ag atyniadau sy'n canolbwyntio ar lechi. Dylid ystyried hyn fel cyfle, yn hytrach nag fel gwendid, yn enwedig o ran yr effaith y gallai STB ei chael ar y rhan hon o'r economi twristiaeth.

## 1.4 Effeithiau posibl at y dyfodol

Ar ôl adnabod maint a gwerth cyfredol treftadaeth, a rôl llechi yn hynny o beth, mae'r sylw'n troi at yr effeithiau posibl a allai ddeillio o gynnydd yn y buddsoddiad mewn treftadaeth – gyda statws STB neu fel arall. Adnabu'r gwaith ymchwil nifer o astudiaethau achos perthnasol lle ceir amryw o elfennau sy'n gyffredin â phrosiect Gwynedd, sef: STB Tref Hanesyddol Vigan yn y Ffilipinau, STB Mwyngloddio Cernyw, STB Blaenafon, a Safle Treftadaeth y Byd Mur Hadrian (Ffiniau'r Ymerodraeth Rufeinig).

Dengys yr astudiaethau achos y gall budd cymdeithasol-economaidd sylweddol ddeillio o statws Safle Treftadaeth y Byd, cyn belled ag y bo'r amcanion i'w gyflawni wedi'u hintegreiddio'n ganolog i'r cynlluniau rheoli. Nid ar hap y digwydd buddiannau o'r fath. Dyma'r prif fanteision y gwelwyd tystiolaeth ohonynt:

- Yn achos rhai prosiectau STB (e.e. Blaenafon) bu'n bosibl **dyblu niferoedd yr ymwelwyr** cyn pen pum mlynedd yn dilyn y gydnabyddiaeth. Cafwyd cynnydd blynyddol o 6% mewn amryw o safleoedd eraill o ganlyniad i weithgarwch a dargedwyd at gynyddu nifer yr ymwelwyr. Felly, mae newidiadau yn niferoedd yr ymwelwyr a'r proffil yn gwbl bosibl drwy weithredu STB, a rhaglenni datblygu cysylltiedig, yn llwyddiannus.
- Cafwyd **cynnydd economaidd o rhwng 1% a 3%** yn y lleoliadau hynny sy'n cynnwys Safle Treftadaeth y Byd yn y blynyddoedd ar ôl i'r Safle dderbyn y statws.
- Prosiectau gyda niferoedd isel o ymwelwyr sy'n elwa fwyaf o'r proffil a ddaw yn sgil STB wrth i ymwelwyr newydd gael eu denu, a'r rheiny'n tueddu i fod yn unigolion sy'n gwario mwy.
- Gall y broses o enwebu safle a rhoi statws STB iddo **greu Cysylltiadau Cyhoeddus werth symiau mawr iawn o arian** a gall hyn beri i **ymwelwyr rhyngwladol fod yn effro** i bwysigrwydd ac arbenigrwydd safle. Mae potensial hefyd i ysgogi mwy o draffig twristiaeth.
- Gall cyflawni canlyniadau amlwg drwy ymelwa ar statws STB helpu i **liniaru (i raddau sylweddol mewn rhai achosion) y problemau cymdeithasol-economaidd** mewn lleoliadau cyfagos i safleoedd STB. Yn Vigan, cafwyd gostyngiad mewn cyfraddau tlodi o 46% i 9% dros y 18 mlynedd yn dilyn rhoi statws STB i'r safle.
- Mae'n bosibl **creu stori gydlynol** dros nifer o safleoedd, nad oes unrhyw gysylltiad amlwg rhyngddynt, a gall hynny gael effaith sylweddol o ran denu ymwelwyr[1].

Er mwyn asesu amrywiaeth o opsiynau datblygu ac, yn benodol, y trosiant cyflogaeth ychwanegol a'r GYC y gallai'r rhain eu hysgogi yn economi Gwynedd, mae'r astudiaeth wedi dylunio wyth senario ar gyfer treftadaeth at y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u hadeiladu'n uniongyrchol ar dystiolaeth yr astudiaethau achos. Mae pob senario yn seiliedig ar amrediad o dybiaethau ynghylch y modd y gallai'r penderfyniad


[1] Nodir ffynonellau'r data/gwybodaeth a welir yma yn nogfen y prif adroddiad.

sy'n gysylltiedig â'r senario effeithio ar yr economi treftadaeth. Yr oedd y tybiaethau hyn yn gysylltiedig â'r prif 'ddylanwadau' a fydd yn effeithio ar berfformiad yr economi treftadaeth, sef: cyfanswm nifer yr ymweliadau twristiaeth; nifer yr ymweliadau twristiaeth a arweinir gan dreftadaeth (wedi'u rhannu'n ymweliadau sy'n seiliedig ar ddiddordeb mewn llechi, ac fel arall); perfformiad y sector Treftadaeth Graidd nad yw'n ymwneud â llechi; perfformiad y sector Treftadaeth Graidd sy'n ymwneud â llechi; a pherfformiad y sector Adeiladwaith Treftadaeth.

Dyma'r **canfyddiadau allweddol o ran yr effeithiau at y dyfodol**:

- Pe bai'r tueddiadau cyfredol yn parhau (Senario 0), byddai cyfanswm o 4% o dwf yn y sector dros yr 16 mlynedd nesaf hyd at 2030. Byddai hyn yn creu 370 o swyddi newydd ar draws y sector treftadaeth.
- Byddai peidio â buddsoddi ymhellach mewn treftadaeth yn arwain at fymryn o dwf ychwanegol uwch ben Senario 0, oherwydd effeithiau'r buddsoddi presennol a fydd i'w gweld yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai hyn ond prin yn dyblu manteision senario 0, gan greu 605 o swyddi (h.y. 7% dros 16 mlynedd).
- Cais STB llwyddiannus, ac ymelwa i'r eithaf arno, yw'r senario mwyaf deniadol o bell ffordd gan ei fod yn arwain at y cynnydd mwyaf mewn lefelau cyflogaeth, gan awgrymu cynnydd posibl o dros ddau draean (68%) yn yr economi treftadaeth erbyn 2030. **Byddai'r senario hwn yn creu dros 5,750 o swyddi ychwanegol erbyn 2030, trosiant blynyddol ychwanegol o £335 miliwn y flwyddyn, a GYC ychwanegol o £127 miliwn y flwyddyn erbyn 2030.**
- Gallai cynyddu'r buddsoddiad heb STB gyflawni budd economaidd sylweddol yn sgil twf cyflogaeth ac, yn ôl pob golwg, hwn fyddai'r ail opsiwn mwyaf deniadol, er bod yr adenillion ar y buddsoddiad yn sylweddol is.
- Byddai'r gwaith ar gyfer enwebiad STB, ynddo'i hun, yn arwain at adenillion economaidd.

### Ffigur 1: Amcanestyniadau Cyflogaeth




Ffynhonnell: TBR and Rebanks Consulting (TBR Ref: W6/C1)

## 1.5 Casgliadau ac argymhellion

Dyma **brif gasgliadau'r astudiaeth**:

- Mae posibiliadau sylweddol i sicrhau mwy o werth economaidd i Wynedd yn sgil treftadaeth y sir, yn enwedig treftadaeth y diwydiant llechi.
- Dengys y dadansoddiad mai'r senario mwyaf deniadol at y dyfodol, o safbwynt economaidd, yw buddsoddi mewn cais STB llwyddiannus ynghyd â gweithgareddau a mentrau a fyddai'n ymelwa i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd sy'n codi.
- Byddai'r dull hwn o weithredu yn effeithio'n uniongyrchol ar yr economi treftadaeth trwy greu mwy o gyfle i dyfu, nid yn unig yn y farchnad dwristiaeth, ond hefyd yng ngwerth a swmp y cynnyrch a'r gwasanaethau sy'n ymwneud â llechi yn y sir, a mwy o fuddsoddiad mewn prosiectau a arweinir gan adfywio ac adeiladwaith.
- Fodd bynnag, awgryma'r astudiaeth y bydd methiant i ymelwa ar statws STB yn lleihau'r budd o hyd at 65% (o safbwynt cyflogaeth); gellid cyflawni lefel allbwn gyffelyb i hyn hefyd drwy ddatblygu a buddsoddi mewn modd lle nad yw'r STB yn berthnasol.
- Ymddengys fod y broses o ychwanegu gwerth yn deillio o uno'r safleoedd hyn i greu stori/brand/profiad mwy gafaelgar a mwy ei faint. Mae mwy o stori i dreftadaeth y diwydiant llechi nag y mae'r proffil twristiaeth presennol yn ei awgrymu a, chyda naratif mwy cydlynol i gysylltu'r safleoedd â'i gilydd, gan gynnal, ar yr un pryd, stori wahanol ar gyfer pob safle, gellir ei weddnewid i rywbeth a fydd yn rhoi mwy o fudd economaidd. Nid yw proses o'r fath yn dibynnu'n llwyr ar sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, a gellid cymryd y camau i beri i hynny ddigwydd yn annibynnol ar gydnabyddiaeth o'r fath.
- Fodd bynnag, byddai statws Treftadaeth y Byd yn hwb aruthrol i broffil byd-eang y stori honno, a gallai fod yn gatalydd grymus i gyflawni hynny. Awgryma ein dadansoddiad y byddai statws Safle Treftadaeth y Byd yn cynnig mantais gymdeithasol-economaidd sylweddol i gymunedau Gwynedd pe bai'r rhanddeiliaid yn awyddus ac yn abl i sicrhau'r dynodiad a rhaglen o gamau gweithredu er mwyn ymelwa i'r eithaf ar y manteision posibl.
- Er ein bod yn credu ei bod yn bosibl ychwanegu budd sylweddol at dreftadaeth Gwynedd heb statws STB, awgryma'r dystiolaeth o rannau eraill o'r byd fod proses o'r fath yn fwy tebygol o ddigwydd, ac yn fwy tebygol o lwyddo ar raddfa fwy, os yw'n un o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO.
- Cyfyd cyfleoedd yn aml hefyd yn sgil cydweithio gyda Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill, a dysgu oddi wrthynt – mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau o Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n gweithio ar faterion penodol, a chyfleoedd i weithio gyda rhoddwyr sy'n dymuno cefnogi targedau cadwraeth neu gymdeithasol-economaidd penodol mewn rhai o'r llefydd pwysicaf yn y byd.

Mae'r astudiaeth hefyd wedi adnabod yr **argymhellion** hyn:

1. Er gwaethaf yr amgylchedd cyllido heriol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, dengys y dystiolaeth yn glir y byddai sicrhau statws STB i Ddiwydiant Llechi Gogledd Cymru yn gyfle sylweddol i gyflawni twf economaidd mewn sector o bwys, i sefydlu Gwynedd ymhellach fel prif gyrchfan i ymwelwyr rhyngwladol, ac i ysgogi manteision a allai fod yn fodd i fynd i'r afael a rhai o'r sialensiau cymdeithasol-economaidd mwyaf difrifol yng Ngwynedd. Dylid trafod prosiect STB, felly, fel cyfle hyn hytrach na fel cost.
2. Mae'n rhaid i'r Cyngor a'i bartneriaid ystyried bod arweinyddiaeth effeithiol i'r broses i sicrhau'r statws ac, yn hollbwysig, y gwaith o gynllunio a gweithredu cynlluniau er mwyn uchafu effeithiau cadarnhaol y statws hwnnw, yn rhan hanfodol bwysig o ymelwa ar y cyfle hwn. Rhaid ystyried felly bod arweinyddiaeth a threfniadau cyflawni sy'n gynaliadwy, effeithiol a chatalytig yn fater o flaenoriaeth.
3. Dylid llunio rhaglen i ymelwa ar statws STB a'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil (cyn derbyn y gydnabyddiaeth honno ac wedyn).
4. Dylai'r prosiect anelu at symud ymlaen yn hwylus tuag at y cam nesaf er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r broses y bydd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ei rhoi ar waith i ddynodi enwebiadau i UNESCO at y dyfodol.

5. Yn ychwanegol at unrhyw asesiadau technegol sy'n ofynnol, dylai'r partneriaid ystyried a ddylid comisiynu gwaith ymchwil pellach i'r cyllid buddsoddi a gafwyd gan brosiectau eraill (graddfa, ffynonellau, a'r dulliau a ddefnyddiwyd i'w sicrhau) a dosbarthiad gofodol y manteision posibl yn sgil STB.
6. Dylid parhau â'r trafodaethau ynghylch strwythur y gwaith o reoli'r cais am statws STB a'r prosiect at y dyfodol, a sut i'w cyllido, gan gynnwys y sector preifat yn y trafodaethau hynny.